# Y Fforwm Gweithwyr
# 12 Mawrth 2025

Yn bresennol: Chloe Price (Y Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)

Cynrychiolwyr Aelodau:
Y Cynghorydd M Bowen, Mrs S Hoss, Dr R Plummer (dirprwy ar ran Mrs J James) a'r Cynghorydd V Thomas.

Cynrychiolwyr staff:
C Broome, J Cooper, A Corp, K Gravell, D Hughes, G Jones, T Jones, G Lister, a C Price.

Swyddogion yn Bresennol:
J Arkley (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), T Jones (Prif Weithredwr), C Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd – Cofnodion).

Cynrychiolwyr undeb:
J Lewis (Unsain).

(Cyfarfod Rhithiol: 13:30 – 14:45)

**1. Ethol Cadeirydd am y cyfarfod**
Ar gynnig y Cynghorydd V Thomas, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **penderfynwyd** bod y Dirprwy Gadeirydd, C Price, yn cymryd y gadair am y cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd C Williams, T Bean, R Hughes, R Lovell, B Rees a D Roberts.

**3. Cyflwyniadau**
Roedd pawb oedd yn bresennol wedi cyflwyno eu hunain.

**4. Datgan Buddiannau**
Nodwyd bod gan bob Cynrychiolydd Staff fuddiant yn eitem 7, yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd. Fodd bynnag gan nad oedd unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud, roedd Swyddog Monitro yr Awdurdod wedi cadarnhau nad oedd angen gwneud datganiadau unigol o fuddiant. Roedd Dr R Plummer wedi gwneud datganiad cyffredinol fel Aelod o Banel Annibynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus.

**5. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2024 i'w

cadarnhau a'u llofnodi.

Cytunwyd i gadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2024.

**6. Log Gweithredu**

O ran cam gweithredu 944, yr Achrediad Cyflog Byw, cadarnhaodd y Prif Weithredwr, er bod yr Awdurdod yn parhau i dalu'r cyflog byw i'r staff, nad oedd achrediad wedi'i dderbyn eto oherwydd newidiadau yn y prosesau caffael a'r modd y byddai hyn yn effeithio ar gontractwyr. Gofynnwyd am amserlen ynghylch yr ymgynghoriad ar gydnabyddiaeth i'r staff (cam gweithredu 976) a dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod arolwg byr wedi'i ddrafftio ac y byddai hwn yn cael ei ddosbarthu unwaith y byddai'r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd wedi'i gwblhau.

**Nodwyd.**

**7. Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl adroddiad oedd yn crynhoi'r broses o Adolygu Cyflogau a Graddfeydd hyd yn hyn. Tynnwyd sylw at y ffaith bod llythyrau gweithredu wedi'u dosbarthu i bob aelod o'r staff fis Tachwedd 2024, bod y rhan fwyaf o'r apeliadau wedi'u cwblhau, ac y byddai'r apeliadau sy'n weddill wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Roedd rhywfaint bach o waith ategol i'w wneud o hyd gan gynnwys cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a ffurfiau eraill o ddadansoddi gan gynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai adolygiad o'r broses yn cael ei gynnal unwaith y byddai'r broses wedi'i gweithredu i amlinellu'r gwersi a ddysgwyd.

Gan edrych i'r dyfodol, gofynnodd Cynrychiolydd Staff sut fyddai'r swyddi newydd yn cael eu hasesu. Cadarnhawyd, gan fod gan yr Awdurdod system gadarn a hierarchaeth gydnabyddedig o bwyntiau ar waith bellach, y byddai'r swyddi newydd yn cael eu hasesu yn fewnol drwy werthuso a chymorth UNSAIN a charfan o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Tynnodd cynrychiolydd UNSAIN sylw at bwysigrwydd gwneud staff yn ymwybodol o'r broses ail-werthuso fyddai ar gael, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Bu trafodaeth i ddilyn ynghylch adborth y staff, ac roedd cydnabyddiaeth bod y staff wedi teimlo'n rhwystredig bod cynnal yr adolygiad Cyflogau a Graddfeydd wedi cymryd mor hir, ond roeddent ar y cyfan yn hapus â'r broses a'r cyfathrebu a fu am wahanol gamau'r broses. Awgrymwyd dosbarthu arolwg di-enw i roi cyfle i bob aelod o staff rannu adborth ar yr adolygiad. Awgrymwyd hefyd bod y Cynrychiolwyr Staff yn hyrwyddo'r arolwg i annog y staff i gyfranogi, a chynnwys pynciau eraill megis cydnabyddiaeth staff gan fod dipyn o amser wedi mynd heibio ers yr

arolwg diwethaf o farn y staff. Cytunwyd y dylid cynnal arolwg cyn gynted â phosibl.

Holodd Aelod a oedd y staff yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr adolygiad, a chadarnhaodd y Swyddog bod y diweddariadau yn cael eu cyfleu i'r staff drwy'r Cynrychiolwyr Staff a'r Arweinwyr Tîm.

**Nodwyd.**